**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 128 – Llefaru Unigol Bl. 5 a 6

**Rwy'n gwybod, Meirion MacIntyre Huws**

Rwy'n gwybod
nad oes neb yn trwsio'r wawr
ar ôl iddi dorri.
Rwy'n gwybod nad yw'r tywydd yn troi
i'r chwith nac i'r dde.
Rwy'n gwybod hefyd
os yw fy nhrwyn yn rhedeg
na fydd o'n mynd yn bell.

Rwy'n gwybod
nad oes rhaid i mi afael mewn troed
i dynnu coes,
na mynd yn agos at neb
i dynnu blew o'i drwyn;
ac rwy'n gwybod
yn bendant
os collaf i fy mhen
fydd dim angen chwilio'n bell amdano.

Rwy'n gwybod,
os oes gen i dân yn fy mol,
na fydda i'n chwythu mwg,
ac na fydda i'n llawn
ar ôl llyncu mul.
Rwy'n gwybod hefyd
nad oes raid i mi roi fy llaw mewn coelcerth
i losgi fy mysedd.

Rwy'n gwybod na fydda i'n malu dim
wrth fynd dros ben llestri.
Rwy'n gwybod hyn i gyd,
ond eto,
nid wyf yn siŵr
os yw bod yn hanner call
yn well, neu'n waeth
na bod yn hanner gwirion …